# Cyngor Sir Ddinbych

# Adolygiad Fformiwla Ariannu Ysgolion Sir Ddinbych ar gyfer Ysgolion Prif Ffrwd ac Ysgolion Arbennig 2013-14

# Dogfen Ymgynghori
# 2 Hydref 2012

*I'w rannu gyda'r canlynol:*

- *Penaethiaid Ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig*
- *Rheolwyr Busnes a Chyllid Ysgolion*
- *Cadeiryddion Llywodraethwyr*
- *Cydbwyllgor Ymgynghorol Dysgu Gydol Oes*
- *Pwyllgor Archwilio Perfformiad*

***Dylid e-bostio unrhyw ohebiaeth at carly.wilson@sirddinbych.gov.uk***

**Annwyl Gydweithiwr**

Mae'n ddwy flynedd ar hugain ers cyflwyno trefn Rheoli Ysgolion yn Lleol (RhYLl) a welodd y broses o ddirprwyo penderfyniadau i Benaethiaid a Chyrff Llywodraethol. Yn ystod y cyfnod hwnnw, nid yw Sir Ddinbych wedi gweld adolygiad sylfaenol yn y dull o ariannu ei hysgolion. Bu newid mawr mewn sut ymgymerir â rheolaeth ariannol mewn ysgolion, gyda rôl draddodiadol swyddog RhYLl yn cael ei disodli gan Reolwr Ariannol penodol wedi ei gyflogi gan glwstwr o ysgolion. Mae hyn wedi deillio o'r ymrwymiad i ganolbwyntio ar rymuso arweinyddiaeth mewn ysgolion i gefnogi codi cyrhaeddiad pob un o'n plant a'n pobl ifanc.

Mae fformiwla ariannu Sir Ddinbych bellach yn hen ffasiwn ac nid yw'n addas i'w phwrpas, o gymharu â sut mae'n hysgolion yn gweithio nawr. Mae'n gynyddol gymhleth i'w gweinyddu ac mae'r rhesymeg addysgol wedi ei herydu dros amser, ac nid yw'r fethodoleg ariannu bellach yn cynrychioli ysgol yr 21ain ganrif. Rwy'n arbennig o fodlon gyda'r egwyddorion sy'n sylfaen i'r cynigion a'r ffaith bod yr agwedd yn un sydd wedi ei symleiddio, a fydd yn sicrhau hyblygrwydd ac eglurder i bob ysgol.

Mae swyddogion wedi treulio cryn amser dros y deuddeg mis diwethaf yn ystyried ein trefniadau ariannu, yn gwrando ar farn cydweithwyr mewn ysgolion ac ar y Fforwm Cyllidebau Ysgolion ac yn ystyried sut mae Awdurdodau eraill yn gweithio, yng Nghymru ac yn Lloegr. Y papur a gyflwynir i chi yw diweddglo'r gwaith hwn, ac rydym yn cydnabod y dylid fod wedi ei wneud ers tro. Ar ddechrau'r broses hon, hoffwn bwysleisio ein bod yn cyflwyo cynnig gwirioneddol i ddibenion ymgynghorol i ddechrau, a hoffem dderbyn sylwadau manwl yn ôl. Mae'n rhoi cyfle i chi wneud sylwadau ar yr egwyddorion craidd a chyfeiriad ariannu yn y dyfodol, ac wrth wneud hyn byddwch yn ein helpu ni i sicrhau bod y fformiwla, pan gaiff ei gweithredu o fis Ebrill y flwyddyn nesaf, yn cael ei hystyried gan ysgolion fel dull teg a chyfartal o ddosbarthu adnoddau. Mae hyn yn hynod o bwysig gan fod y ffaith fod y pot arian yn un cyfyngedig yn golygu ei bod hi'n amhosib inni gyflawni dymuniadau pawb ym mhob elfen. Felly, mae'n holl bwysig fod yr arian a ddarperir yn delio â'r gwir gostau a achosir. Pwysleisiaf felly bwysigrwydd eich adborth a, ble bo'n briodol, gyfiawnhad dros pam a sut y byddai cynigion eraill yn gweddu anghenion ysgolion yn well.

Rwyf eisoes wedi trafod gyda Swyddogion yr angen i sicrhau bod lle i'r fformiwla esblygu ymhellach fyth ar ôl Ebrill 2013 ac rwy'n awyddus i weld gwaith manwl pellach yn cael ei wneud ar rai o'r elfennau gweithgaredd strategol fel Cyfnod 2 yr adolygiad hwn. Yn y cyfamser, rwy'n hyderus y bydd y fformiwla arfaethedig yn cynnig agwedd effeithiol tuag at ariannu ysgolion y gellir parhau ei datblygu ar y cyd â'r Fforwm Cyllidebau Ysgolion a rhanddeiliaid ehangach.

Diolch i'r holl Ysgolion a Swyddogion sydd wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r cynigion hyn, ac edrychaf ymlaen at glywed eich barn.

Karen Evans

**Karen Evans**
**Pennaeth Addysg**

## 1. CYFLWYNIAD

Dylid darllen y ddogfen hon ynghyd â'r ddogfen gyfathrebu a rannwyd ar 1 Mehefin 2012.
Sylwch fod newidiadau i'r graddfeydd amser ac fe gynhwysir amserlen ddiwygiedig gyda'r ddogfen hon yn adran 4.

Mae'n bwysig nodi fod yr ymgynghoriad hwn yn ymdrin â'r dull o ddosbarthu cyfanswm chwantwm yr ysgolion yn unig; nid yw'n gyfle i roi sylwadau ar y swm o arian sydd yn y cwantwm cyfan. Mae Sir Ddinbych yn ymroddedig i gynyddu'r lefel o ddirprwyaeth yn unol â tharged Llywodraeth Cymru o 85% erbyn 2014-15 a bydd yn parhau i gydweithio gydag ysgolion i drosglwyddo gweithgareddau ac arian a gedwir yn ganolog i'r rheng flaen ble bo'n briodol. Bydd Sir Ddinbych hefyd yn parhau i ariannu yn unol ag addewid y Gweinidogion i warchod cyllidebau ysgolion, a bydd hyn gyfystyr a chodiad o 2.05% yn 2013-14.

Cofiwch nodi hefyd, er nad yw'r adolygiad hwn yn cyfeirio at grantiau penodol ar y funud, mae arian Ôl 16 a Chyfnod Sylfaen hefyd wedi eu cynnwys gan fod y ddau'n cael eu rhannu ar sail fformiwla ac mae'n debygol iawn y bydd y rhain yn cael eu trosglwyddo i'r Grant Setliad Refeniw (GSR) o fewn y 2 flynedd nesaf. Sylwch fod pob cyfrifiad niferoedd Disgyblion ar gyfer pob elfen ariannol yn eithrio disgyblion ôl 16, oni ddywedir i'r gwrthwyneb.

Datblygwyd y cynigion a osodir yn y ddogfen hon mewn partneriaeth gydag ysgolion. Maent yn ystyried yr heriau presennol sy'n wynebu ysgolion, a'r rhai newydd sydd i ddod. Bwriad y fformiwla newydd yw symleiddio proses ariannu ysgolion a'i wneud yn fwy tryloyw gan alluogi ysgolion i fod yn fwy hyblyg o ran cynllunio a rheoli eu harian.

Sylwch fod y cynigion hyn yn rai drafft ac y gallant newid. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori bydd y cynnig fformiwla terfynol yn cael ei lunio, gan gynnwys yr adborth a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori, os yn briodol.

Dyma'r prif ystyriaethau wrth ddatblygu'r cynnig hwn:

- Maint a mathau ysgolion yn Sir Ddinbych;
- Yr angen i gefnogi a gwarchod y plant a'r ieuenctid sydd fwyaf agored i niwed yn ein hysgolion;
- Disgwyliadau polisi lleol a chenedlaethol;
- Cynhyrchu sefydlogrwydd tymor hir o fewn y broses ariannu;
- Addasu arian yn unol â chostau go iawn o fewn y sefydliad ysgol;
- Ystyried y cydbwysedd ariannu rhwng Ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig.

Rydym yn hyderus fod y fformiwla newydd yn cynnwys egwyddorion craidd:

- **Ecwiti** - pob rhanddeiliad yn ei ddeall a'i dderbyn er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ecwitïol ac yn cyflawni'r canlyniadau dymunol ar gyfer plant ac ieuenctid.

- **Symlrwydd** - rhoi grym i ysgolion gynllunio eu cyllidebau'n briodol thrwy fformiwlâu sy'n syml i'w defnyddio ac sy'n osgoi'r angen i ddibynnu'n ormodol ar wybodaeth gan yr Awdurdod Lleol.

- **Hyblygrwydd** - ymateb i ffactorau mewnol ac allanol fel y gall yr arian weithio'n hyblyg heb yr angen i wneud newidiadau sylfaenol pan fo blaenoriaethau neu sbardunau allweddol yn newid.

- **Sefydlogrwydd a Chynaliadwyedd** - cefnogi ysgolion i gynnal sefydlogrwydd ariannol thrwy roi platfform iddynt gynllunio'n effeithiol a rheoli cyllideb yn gadarn.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys:

- Fframwaith fformiwla manwl
- Dyraniadau dangosol cyllideb 2013-14 (yn seiliedig ar y fformiwla newydd)
- Cymhariaeth o ddyraniadau dangosol cyllideb 2013-14 (hen fformiwla yn erbyn y fformiwla newydd)

DRAFT

## 2. Y FFORMIWLA ARFAETHEDIG

Mae’r fformiwla arfaethedig wreiddiol wedi ei datblygu ymhellach ac isod mae manylion am y cynnig drafft y seilir Fformiwla Ariannu Sir Ddinbych arno.

Er bod y fformiwla’n canolbwyntio’n bennaf ar y dull o rannu bob elfen, mae’r adolygiad wedi canolbwyntio hefyd ar gydbwysedd yr arian ar draws y 3 sector: Cynradd, Uwchradd ac Arbennig. Cedwir y rhaniad presennol rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd yn ei ffurf bresennol gan fod cymhariaeth o’r gwariant ar draws sectorau ac ar draws Cymru yn cynnig ein bod yn gyson â’r darlun cenedlaethol, felly nid oes dim rheswm i awgrymu fod ein cydbwysedd arian yn un anghywir. Mae lefel cyrhaeddiad CA2 a CA4 hefyd yn weddol gyson felly nid yw’n cyflwyno achos inni ailddosbarthu adnoddau ar draws y sectorau. O ganlyniad, ailddosbarthiad o fewn sectorau yn unig a gynhwysir yn yr adolygiad fformiwla, a dim ailddosbarthiad ar draws sectorau.

Mae’r ddogfen a gynhwysir yn Atodiad 1 y ddogfen gyfathrebu wreiddiol (a gyhoeddwyd ar 1 Mehefin) yn rhoi manylion am y modd y dosbarthwyd yr hen fformiwla. Ble bo’n briodol, gellir cymharu hwn gyda’r tabl a gynhwysir yn Atodiad 1 isod.

Y prif newidiadau i’r fformiwla flaenorol fydd y dull o ddosbarthu ar draws elfennau penodol, gan eithrio’r Arian Maint Dosbarthiadau blaenorol a gynigir yn awr fel polisi ar wahân. Cynhwysir y polisi drafft yn Atodiad 4 er mwyn ei ystyried ynghyd â’r cynigion Adolygu Fformiwla.

Bydd gan bob un o’r 7 elfen ddyraniad arian ynghlwm iddynt. Yna fe gyfrifir y dyraniad hwnnw gan ddefnyddio Sbardunau Costau Gweithgaredd sy’n berthnasol i natur yr elfen honno. Defnyddir y fformiwla’n gyson i bob sector cyn belled ag y bo modd, ond bydd achosion o bosib pan ddefnyddir rhai sbardunau cost yn y sector cynradd, uwchradd neu arbennig yn unig oherwydd gwahaniaethau ar draws y sectorau.

**Atodiad 1:** dyma amlinelliad o’r fformiwla fanwl sy’n dangos y sbardunau cost a ddefnyddir i greu pob elfen gweithgaredd strategol. Mae’n bwysig fod rhanddeiliaid yn ystyried effeithiolrwydd y dyraniadau yng nghyd-destun y blaenoriaethau gweithgaredd strategol a fanylir isod ac nid o fewn cyd-destun y meysydd gwariant unigol. Yna bydd hwn yn rhedeg gyda’r trefniadau newydd ar gyfer rheolaeth ariannol mewn ysgolion pan gyflwynir un gyllideb sengl gyfan, gan roi rhyddid a hyblygrwydd o fewn y dyraniad i Benaethiaid a Llywodraethwyr ddewis y ffordd orau i drefnu adnoddau yn erbyn blaenoriaethau eu hysgol.

**Atodiad 2:** dyma amlinelliad o’r dyraniadau arfaethedig ar gyfer pob elfen yn ôl data dangosol 2013-14 sy’n seiliedig ar yr ysgol.

**Atodiad 3:** dyma gymhariaeth o ddyraniadau dangosol 2013-14 y fformiwla newydd yn erbyn y dyraniadau dangosol a ddarparwyd yn flaenorol ym mis Ebrill 2012-13 o dan yr hen fformiwla. (*dylai ysgolion fod yn wyliadwrus wrth ddefnyddio’r wybodaeth hon gan ei bod hi’n bwysig ei gymharu ynghyd â chynlluniau gwariant presennol oherwydd gall symudiadau cyllideb fod â symudiadau gwariant cyfatebol a all amsugno effeithiau rhai o’r newidiadau i’r gyllideb)*

Rhaid nodi mai dim ond cymhariaeth ddangosol ar gyfer 2013-14 yw'r dyraniadau yma o beth fyddai'r hen fformiwla ar fformiwla newydd wedi ei ddarparu yn seiliedig ar y data a ddefnyddiwyd i yrru'r gyllideb ym mis Ebrill 2012-13. Maent yn debygol i newid (fel sydd bob tro yn digwydd) pan fyddwn wedi gorffen casglu data i hysbysu cyllideb derfynol 2013-14.

**Atodiad 4:** cynnig drafft ar gyfer ymdrin ag arian maint dosbarthiadau yn y dyfodol

Dylai ysgolion ystyried y polisi maint dosbarth pan fyddant yn adolygu newidiadau i'r gyllideb gan y gall rhai symudiadau negyddol gael eu gosod yn erbyn cyllid sydd ar gael drwy'r polisi hwn.

## 3. TREFNIADAU TROSIANNOL

Fe adolygir pob ysgol yn unigol er mwyn cymharu symudiad yn y gyllideb o ganlyniad i’r fformiwla newydd. Pe bai cynllun cyllideb 3 blynedd ysgol yn cael ei effeithio gan y newidiadau hyn, fe osodir trefniadau ariannu trosiannol i warchod ysgolion dros dro tra bo cynllun ariannol diwygiedig yn cael ei ddrafftio.

DRAFT

Bydd cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu a fydd yn nodi bwriadau'r Awdurdod Lleol i gydweithio â'r ysgolion hynny a all fod â risgiau ariannol a gweithredol sy'n gysylltiedig â newidiadau'r fformiwla newydd.  Bydd hwn yn rhoi cyfle i adolygu problemau ysgolion yn unigol gan ystyried sefyllfa ariannol ehangach yr ysgol.

## 4. NEWIDIADAU I GYFANSWM CYLLIDEB DDANGOSOL YSGOLION

Er bod yr adolygiad fformiwla yn ymdrin yn bennaf gydag ailddosbarthu cyllid, fe sylwch o'r ffigyrau fod rhai newidiadau i'r cyfanswm cwantwm o fewn pob sector (fel y dangosir yn Atodiad 3).

Dyma'r rhesymau dros y newidiadau hyn:

- **Cynradd – Dyma'r newidiadau i gyfanswm y gyllideb ddangosol:**

| | |
|---|---|
| Arian a Gedwir yn Ganolog ar gyfer y Polisi Maint Dosbarthiadau | (£300,000) |
| Cynnydd yn Arian y Cyfnod Sylfaen | £55,276 |
| Dirprwyo Arian Addysg Awyr Agored | £39,406 |
| Arian a Gedwir yn Ganolog yn dilyn Cyfuno Ysgol Dyffryn Iâl | (£45,423) |
| Lleihad mewn Cyllideb Net | (£250,741) |

- **Uwchradd - Dyma'r newidiadau i gyfanswm y gyllideb ddangosol:**

| | |
|---|---|
| Dirprwyo Arian Addysg Awyr Agored | £16,687 |
| Cynnydd Mewn Cyllideb Net | £16,687 |

- **Arbennig - Dyma'r newidiadau i gyfanswm y gyllideb ddangosol:**

| | |
|---|---|
| Lleihad mewn Arian Cyfnod Sylfaen | (£55,276) |
| Dirprwyo Arian Addysg Awyr Agored | £1,622 |
| Lleihad mewn Cyllideb Net | (£53,654) |

## 5. GRADDFEYDD AMSER DIWYGIEDIG AR GYFER YMGYNGHORI AC ADOLYGU

| Gweithgaredd | Dyddiad Targed | Sylwadau |
|---|---|---|
| Dogfen electronig i'w dosbarthu i'r holl randdeiliaid: Cydbwyllgor Ymgynghorol, Penaethiaid, Rheolwyr Busnes a Chyllid, Cadeiryddion Llywodraethwyr | 1af Mehefin 2012 | |
| Trafod fframwaith amlinellol gyda Chadeirydd y Fforwm Llywodraethwyr | Mehefin 14eg 2012 | |
| Trafod fframwaith amlinellol gyda'r Fforwm Cyllidebau Ysgolion | Mehefin 25ain 2012 | |
| Trafod fframwaith amlinellol gyda'r Rhwydwaith Busnes a Chyllid Ysgolion | Mehefin 25ain 2012 | |
| Trafod fframwaith amlinellol gyda'r Cydbwyllgor Ymgynghorol | Gorffennaf 4ydd 2012 | |
| Gwaith modelu ariannol manwl ar y fformiwla arfaethedig mewn partneriaeth â Rheolwyr Cyllid Ysgolion | Mehefin – Hydref 2012 | |
| Trafod y cynigion amlinellol gyda'r Pwyllgor Craffu Perfformiad | 6 Medi 2012 | Gofynnodd y Pwyllgor i gael trafod yr eitem yn ystod cyfarfod mis Hydref er mwyn ystyried meysydd risg posib.  Taflen Ffeithiau Rheoli hefyd i'w baratoi ar gais yr Aelodau. |
| Trafod y cynigion amlinellol gyda'r Fforwm Cyllidebau Ysgol | 12 Medi 2012 | Trafodaeth ar adolygu graddfeydd amser ar gyfer yr adolygiad gyda'r grŵp yn dilyn yr angen i ohirio'r cyfnod ymgynghori am 1 mis. |

| | | |
|---|---|---|
| Trafod y cynigion amlinellol gyda Grŵp Strategol Cymru | 24 Medi 2012 | Trafod cynigion penodol yr elfen Iaith Gymraeg yn unig gyda'r grŵp. |
| Trafod y cynigion amlinellol gyda'r Rhwydwaith Busnes a Chyllid | 25 Medi 2012 | Gohirio'r cyfarfod tan 3 Hydref 2012 |
| Trafod y cynigion amlinellol gyda'r Cydbwyllgor Ymgynghori | 26 Medi 2012 | |
| **Dechrau'r cyfnod Ymgynghori Ffurfiol** | **2 Hydref 2012** | |
| Trafod y cynigion gyda'r Pwyllgor Craffu Perfformiad | 18 Hydref 2012 | Gofynnwyd am y cyfarfod hwn ar y 6 Medi 2012 fel y gallai Aelodau Etholedig ystyried y meysydd risg posib mor fuan â phosib. |
| Trafod y cynigion gyda Cadeirydd y Fforwm Llywodraethwyr | 18 Hydref 2012 | |
| Trafod y cynigion gyda'r Rhwydwaith Busnes a Chyllid | 23 Hydref 2012 | |
| Trafod y cynigion gyda'r Fforwm Cyllidebau Ysgol | 7 Tachwedd 2012 | |
| **Diwedd y cyfnod ymgynghori** | **9 Tachwedd 2012** | |
| Cyllid Addysg i weithio ar Gyllidebau Dangosol 2013-14 terfynol | 9 Tachwedd 2012 – 30 Rhagfyr 2012 | |
| Ceisio cymeradwyaeth gan y Cabinet i weithredu'r fformiwla newydd | 18 Rhagfyr 2012 | |
| Y Ddogfen Fformiwla derfynol i'w gyrru at yr holl rhanddeiliaid gyda Chyllidebau Dangosol 2013-14 | 18 Ionawr 2013 | |
| Cadarnhau Cyllidebau terfynol 2013-14 | 1 Mawrth 2013 | |

DRAFFT

## 6. ADBORTH YR YMGYNGHORIAD

Gall y cynigion a gyflwynir yn y ddogfen hon yn dal newid ar ôl derbyn adborth yr ymgynghoriad. Dylai rhanddeiliaid fod yn ymwybodol ei bod hi'n amhosib creu fformiwla sy'n ateb anghenion pob ysgol yn llawn pan fo arian cyfyngedig ar gael. Felly, dylai'r adborth ganolbwyntio ar ba un ai a yw'r cynigion yn cyflawni'r egwyddorion craidd a fwriadwyd yn wreiddiol ac a ydynt yn adlewyrchu gwir sbardunau costau mewn ysgolion.

Dylid e-bostio pob adborth at carly.wilson@sirddinbych.gov.uk.Mae'r fformiwla ariannu newydd yn seiliedig ar sbardunau costau gwirioneddol ac yn ddull o ddyrannu arian i ysgolion yn seiliedig ar y gwir gostau a achosir. Felly, ble bynnag ag y bo modd, mae'n rhaid i'r adborth gyfiawnhau'r rheswm dros

ddefnyddio methodoleg ariannu gwahanol gan arddangos sut a pham yr achosir costau ar gyfer y gweithgaredd hwnnw.

DRAFFT

## Atodiad 1 – Sbardunau Costau Gweithgaredd yn ôl Elfen

| Elfen o Weithgaredd Strategol | Sbardunau Costau’r Gweithgaredd | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cynradd** | **Uwchradd** | **Arbennig** | **Sylwadau** |
| **Cwricwlwm** | **Disgyblion** - £1,812 y disgybl | **Disgyblion CA3** - £3,071 y disgybl<br><br>**Disgyblion CA4** - £3,823 y disgybl | **Lleoedd Arfaethedig, Cyfartaledd 3 blynedd** -<br><br>Disgybl band 1 - £13,195<br>Disgybl band 2 - £11,876<br>Disgybl band 3 - £9,897<br>Disgybl band 4 - £8,577<br>Disgybl band 5 - £6,505 | Rhennir y dyraniad cwricwlwm yn bennaf ar niferoedd disgyblion safonol ond pwysolir hwy’n wahanol ar draws y gwahanol gyfnodau allweddol yn y sector Uwchradd.<br><br>Mae Ysgolion Arbennig yn derbyn dyraniadau yn seiliedig ar y lleoedd cyfartalog y cynlluniwyd ar eu cyfer dros y 3 blynedd diwethaf. Bwriad hyn yw sefydlogi amrywiadau mewn niferoedd disgyblion ar draws y 2 ysgol gan ganiatáu cynllunio mwy cywir. |
| | **Disgyblion Blwyddyn 1 i 6** - £1.98 y disgybl<br><br>**Lwmp-swm** - £560 yr ysgol | **Disgyblion Blwyddyn 7 i 11** - £1.98 y disgybl<br><br>**Lwmp-swm** - £560 yr ysgol | **Disgyblion Blwyddyn 1 i 11** - £1.98 y disgybl<br><br>**Lwmp-swm** - £560 yr ysgol | Mae’r dyraniad hwn yn gyson gyda’r Fformiwla a gytunwyd yng Ngogledd Cymru ar gyfer ariannu darpariaeth Addysg Awyr Agored. Fodd bynnag nid yw’r dyraniad hwn wedi ei neilltuo i’r diben hwnnw. |
| | **CA1, disgyblion meithrin yn unig** - £794 y disgybl<br><br>**CA1, disgyblion derbyn yn unig** - £1624 y disgybl<br><br>**CA1, disgyblion blwyddyn 1 yn unig** - £686 y disgybl<br><br>**CA1, disgyblion blwyddyn 2 yn unig** - £686 y disgybl | | **CA1, disgyblion meithrin yn unig** - £666 y disgybl<br><br>**CA1, disgyblion derbyn yn unig** - £1357 y disgybl<br><br>**CA1, disgyblion blwyddyn 1 yn unig** - £535 y disgybl<br><br>**CA1, disgyblion blwyddyn 2 yn unig** - £562 y disgybl | Mae disgyblion CA1 yn denu mwy o arian tuag at y Cyfnod Sylfaen. Felly mae’r dyraniad CA1 yn adlewyrchu darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar a phwysolir ef ar draws y gwahanol grwpiau blwyddyn yn seiliedig ar anghenion staffio. Ar y funud mae’r arian yn grant penodol gan Lywodraeth Cymru ond gall mewn blynyddoedd i ddod fod yn rhan o Setliad Refeniw'r Awdurdod Lleol.<br><br>Cynigir y dylid trin Cynradd ac Arbennig yn gyson a dylent dderbyn dyraniad o uned o’r un gwerth; fodd bynnag mae arian ychwanegol ar gyfer Ysgolion Cynradd er mwyn cefnogi darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar, ond fe ariennir Ysgolion Arbennig yn barod drwy eu lleoedd arfaethedig. |
| | **Lwmp-swm** - £45,423 yr ysgol ac arian ychwanegol wedi ei | **Lwmp-swm -** £45,423 wedi ei bwysoli yn ôl bob ysgol: | | Mae’r dyraniad lwmp-swm yn rhoi ffrwd ariannol sefydlog a fydd yn cefnogi’r gost o ddarparu’r cwricwlwm. Bydd Ysgolion Cynradd yn derbyn dyraniad penodedig yn seiliedig ar gostau cyflog cyfartalog ar draws |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | bwysoli fel a ganlyn:<br><br>51 i 100 £6,479<br>101 i 250 £9,719<br>>250 £12,958 | <600 - 2.00<br>601 i 900 - 1.50<br>901 i 1200 - 1.00 | | ysgolion. Bydd Ysgolion Uwchradd yn derbyn dyraniad penodedig wedi ei bwysoli yn ôl maint yr ysgol.<br><br>Mae ysgolion llai yn derbyn mwy er mwyn adlewyrchu'r realiti fod darparu'r cwricwlwm mewn dosbarthiadau llai yn anoddach yn yr ysgolion hyn. |
| | | **Unedau Credyd Cyfwerth Ôl 16 (UCC)** - £23 bob UCC | **Dyraniadau Ôl-16 gwirioneddol** | Dyrannwyd Arian Ôl 16 (AAA a prif ffrwd) yn ôl gwerth y grant cyfan a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. Dim ond disgyblion Ôl 16 a ddefnyddir yng nghyfrifiadau'r dyraniadau hyn.<br><br>Mae'r dyraniadau arfaethedig yn yr Ysgolion Uwchradd yn gyson gyda'r dull dyrannu a gytunwyd ar gyfer 2012-13. Mae hyn yn parhau yng nghynigion y fformiwla newydd ond disgwylir ymgynghoriad pellach – gobeithir ei gynnal ym mis Hydref. Dyfernir Ôl 16 mewn Ysgolion Arbennig ar sail wirioneddol. |
| | **Cyfwerth ag amser llawn, Holl staff**- £646 bob staff cyfwerth ag amser llawn<br><br>**Cyfwerth ag amser llawn, athrawon yn unig** - £4,162 bob athro cyfwerth ag amser llawn | **Cyfwerth ag amser llawn, Holl Staff** - £646 bob staff cyfwerth ag amser llawn<br><br>**Cyfwerth ag amser llawn, Athrawon yn unig** - £1,373 bob athro cyfwerth ag amser llawn | **Cyfwerth ag amser llawn Holl Staff** - £646 bob staff cyfwerth ag amser llawn<br><br>**Cyfwerth ag amser llawn Athrawon yn unig** - £2,768 bob athro cyfwerth ag amser llawn | Mae'r dyraniad Cyfwerth ag Amser Llawn yn galluogi gwahaniaeth rhwng arian niferoedd disgyblion safonol pan fo'r costau a achosir yn fwy perthnasol i'r nifer o staff yn hytrach na'r nifer o ddisgyblion. Byddai hyn o gymorth ar gyfer costau megis Mamolaeth, Salwch a Baich Gwaith.<br><br>Mae dyraniadau baich gwaith yn seiliedig ar gostau athro UPS 1 er nid oes disgwyl i hwn ddelio ag amser dysgu ar y lefel hwnnw yn unig. Lleiheir dyraniadau Uwchradd o 2/3 i adlewyrchu fod gan athrawon amser digyswllt wedi ei amserlennu i'w wythnos gweithio yn barod.<br><br>Dyrennir cyfartaledd o ddyraniadau Cynradd ac Uwchradd i Ysgolion Arbennig ar gyfer Cyfwerth ag Amser Llawn. |
| | **Lwmp-swm Undeb** (ble bo'n berthnasol) - £90 bob hanner diwrnod | **Lwmp-swm Undeb** (ble bo'n berthnasol) - £90 bob hanner diwrnod | **Lwmp-swm Undeb** (ble bo'n berthnasol) - £90 bob hanner diwrnod | I'r Ysgolion hynny ble bo hi'n berthnasol, byddant yn derbyn dyraniad lwmp-swm sydd gyfwerth â'r gost gyfartalog o gyflenwi amser ysgrifennydd undeb hanfodol. Dyrennir ef ar gyfartaledd i'r amser cyfan sydd wedi ei gytuno i'r aelod o staff gael ei ryddhau yn ôl cytundeb Ysgrifennydd yr Adran Undeb Leol. Gwarchodir unrhyw gytundebau sydd wedi cytuno swm arall dros oes y cytundeb hwnnw. |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amddifadedd Cymdeithasol** | **Hawl i Brydau Ysgol am Ddim** - £112 bob disgybl PYD | **Hawl i Brydau Ysgol am Ddim** - £112 bob disgybl PYD | **Hawl i Brydau Ysgol am Ddim** - £112 bob disgybl PYD | Mae'r dyraniad yn adlewyrchu'r angen rheoliadol i addasu cyfran y gyllideb yn seiliedig ar ffactorau amddifadedd. Y cynnig yw cadw Prydau Ysgol am Ddim fel y sbardun cost ar gyfer amddifadedd cymdeithasol sy'n gyson gydag agwedd Llywodraeth Cymru tuag at ddyrannu'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Byddai'r dyraniad yn rhoi 25% ychwanegol i ddyraniad presennol Llywodraeth Cymru o £450 y disgybl o'r GAD. |
| **Anghenion Dysgu Ychwanegol** | **Lwmp-swm** - £600 bob plentyn sy'n derbyn gofal | **Lwmp-swm** - £600 bob plentyn sy'n derbyn gofal | **Lwmp-swm** - £600 bob plentyn sy'n derbyn gofal | Bydd dyraniad pellach o lwmp-swm penodedig yn cael ei ddyfarnu i unrhyw ysgol sydd â phlentyn sy'n derbyn gofal ar y gofrestr. Mae hyn yn cynrychioli ymrwymiad Sir Ddinbych fel Rhiant Corfforaethol i Blant sy'n derbyn Gofal. Cesglir y data ar gyfer y dyraniad hwn o'r datganiad CYBLD. |
| | **Lwmp-swm** - £2500 yr ysgol | **Lwmp-swm** - £2500 yr ysgol | | Mae hwn yn cydnabod y gost o dalu lwfans ADY ym mhob ysgol. Nid yw'n berthnasol i Ysgolion Arbennig gan fod eu dyraniad cwricwlwm yn ôl disgybl wedi ei bwysoli'n barod i adlewyrchu hyn. |
| | **Disgyblion ar Ddatganiad** - £12,439 y disgybl ar sail 1 i 1<br><br>**Disgyblion Gweithredu Gan yr Ysgol a Mwy** - £579 y disgybl | **Disgyblion ar Ddatganiad** - £4,146 y disgybl ar sail 1 i 3<br><br>**Disgyblion Gweithredu Gan yr Ysgol a Mwy** - £579 y disgybl | | Bydd ADY yn cael ei ariannu'n bennaf gan ddefnyddio'r data CYBLD sydd ar gael ar ddisgyblion ar Ddatganiad a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Ar y funud mae ADY yn destun adolygiad ar wahân ar gyfer y sector cynradd a bydd yn destun ymgynghoriad ar wahân a all olygu trefniant cyllideb gronfa.<br><br>Yna mae'n rhaid i'r sector Uwchradd fod yn rhan o ail gam yr un adolygiad a all olygu newid yn y dull o ddyrannu. Fodd bynnag, y dyraniad a gynigir yma fydd y mesur dros dro i ddelio â'r anghysondebau hanesyddol wrth inni ddisgwyl am yr adolygiad llawn.<br><br>Nid yw'r dyraniad ADY yn berthnasol i Weithredu gan yr Ysgol gan fod disgwyl y bydd 5% o'r dyraniad cwricwlwm sylfaenol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi disgyblion gyda lefel is o anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r dyraniad hwn er mwyn cefnogi disgyblion gyda lefel uwch o angen o fewn ysgolion.<br><br>Ni ddyfernir arian ychwanegol i Ysgolion Arbennig am ADY gan fod eu dyraniad cwricwlwm yn ôl disgybl wedi ei bwysoli'n barod i adlewyrchu hyn. |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Iaith Gymraeg** | **£140 ychwanegol ar gyfer pob disgybl wedi ei bwysoli yn ôl categori**:<br><br>Cat 1 – 0.25<br>Cat 2 – 1.00<br>Cat 3 – 0.25<br>Cat 4 – 0.50<br>Cat 5 – 0.00 | **£182 ychwanegol ar gyfer pob disgybl (AWPU) wedi ei bwysoli yn ôl categori**:<br><br>Cat 1 – 0.25<br>Cat 2 – 1.00<br>Cat 3 – 0.25<br>Cat 4 – 0.00 | | Defnyddir diffiniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr elfen hon:<br><br>Cynradd:<br><br>Cat 1. Cyfrwng Gymraeg<br>Cat 2. Dwy Ffrwd<br>Cat 3. Cyfrwng Gymraeg ond gyda defnydd arwyddocaol o’r Saesneg<br>Cat 4. Cyfrwng Saesneg yn bennaf ond gyda defnydd arwyddocaol o’r Gymraeg<br>Cat 5. Cyfrwng Saesneg yn bennaf<br><br>Uwchradd:<br><br>Cat 1. Cyfrwng Gymraeg<br>Cat 2. Darpariaeth Ddwyieithog<br>Cat 3. Cyfrwng Saesneg yn bennaf ond gyda defnydd arwyddocaol o’r Gymraeg<br>Cat 4. Cyfrwng Saesneg yn bennaf<br><br>Mae’r pwysiadau hyn wedi eu cyfrifo gyda’r bwriad o sicrhau fod adnoddau ychwanegol yn cael eu hanelu at y mannau y mae’r ddarpariaeth Iaith Gymraeg yn creu costau ychwanegol ar gyfer ysgolion.<br><br>Fe ystyriwyd yr achosion hynny sy’n creu costau ychwanegol wrth ddarparu darpariaeth Iaith Gymraeg neu Ddwy Ffrwd o’i gymharu â darparu cwricwlwm Cymraeg arferol fel rhan o’r cwricwlwm safonol. Byddai’r costau hyn yn rhan o’r elfen Gwricwlwm yn hytrach na’r elfen Iaith Gymraeg. Bwriad yr elfen Iaith Gymraeg ychwanegol yw cefnogi ysgolion sy’n creu costau ychwanegol o ganlyniad rhedeg cyrsiau thrwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. |
| | **Lwmp-swm** - £2,040 ar gyfer pob ysgol categori 1, 2 a 3 | **Lwmp-swm** - £42,908 ar gyfer pob ysgol categori 1, 2 a 3 | | Dyfernir y dyraniad lwmp-swm hwn i ysgolion categorïau 1, 2 a 3 yn unig, ble bo’n briodol, a meincnodir ef yn erbyn costau cefnogaeth cyfieithu. |
| **Adeiladau** | **Cost Wirioneddol Trethi Busnes / Rhent** | **Cost Wirioneddol Trethi Busnes / Rhent** | **Cost Wirioneddol Trethi Busnes / Rhent** | Arienni hwn ar sail wirioneddol ar gyfer pob ysgol yn unol â gwerth rhent a phrisiant NNDR blynyddol. |
| | **Arwynebedd Llawr** - £32 bob $m^2$ | **Arwynebedd Llawr** - £29 bob $m^2$ | **Arwynebedd Llawr** - £32 bob $m^2$ | Mae’r dyraniad adeiladau yn werth uned generig a fydd yn cefnogi pob cost sy’n ymwneud ag adeiladau. Cyfrifwyd ef gan ddefnyddio costau gwariant wedi eu meincnodi a gwerthoedd uned ddangosol ar gyfer egni. |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r costau is yn y sector Uwchradd yn adlewyrchu'r raddfa fwy o economïau sy'n codi o gostau gofalwr ar gyfer pob $m^2$ (hynny yw 1 gofalwr ar gyfer pob ysgol uwchradd yn erbyn 1 gofalwr mewn ysgol gynradd). |
| **Cynaliadwyedd** | **Lwmp-swm** – lwmp-swm o £45,423 wedi ei bwysoli os yw ysgol wedi ei chyfuno ar 2 safle:<br><br>0 i 100 disgybl - 1.50<br>100 i 300 disgybl - 0.50<br>300+ disgybl - 0.25 | **Lwmp-swm** – lwmp-swm o £45,423 wedi ei bwysoli os yw ysgol wedi ei chyfuno ar 2 safle: | | Bydd unrhyw ysgol sydd wedi eu cyfuno yn elwa o dderbyn dyraniad cydnabyddedig i gefnogi'r anawsterau a etifeddir wrth redeg 2 safle. Mae hyn yn cynnwys gweinyddiaeth a'r cynnydd mewn costau staffio a achosir o ganlyniad i gyfuno'r 2 ysgol. Ariennir yr ysgol fel 1 yn hytrach na 2 o dan y model cyfuno felly byddant yn derbyn llai o arian yn y fformiwla nag ysgolion wedi eu ffederaleiddio, felly dyna pam fod cynnydd yn y lwmp-swm. |
| | **Lwmp-swm** - £2,000 ar gyfer ysgol wedi eu ffederaleiddio | | | Bydd unrhyw ysgol sydd wedi ei ffederaleiddio yn elwa o dderbyn dyraniad i gefnogi'r anawsterau a etifeddir wrth reoli 2 safle, o ran gweinyddiaeth. Bydd yr ysgolion yn parhau i gael eu hariannu fel 2 ysgol ond rheolir hwy gan un Pennaeth ac un Corff Llywodraethol. |
| | **Disgyblion Symudol** - £200 y disgybl os yw % y symudiad > 10% | **Disgyblion Symudol** - £200 y disgybl os yw % y symudiad > 10% | | Dyfernir arian ychwanegol i ysgolion sydd â dros 10% o gyfanswm eu nifer disgyblion yn rai symudol. Dyfernir yr arian yn ôl y gyfradd a ddangosir ar gyfer pob disgybl sydd dros y trothwy 10%. |
| | **Y disgybl** - £1,243 ychwanegol y disgybl mewn ysgolion bach (hynny yw, ysgolion gyda chyfanswm disgyblion < 50). Dyfernir arian ychwanegol dim ond ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y disgyblion gwirioneddol sydd ar y gofrestr a'r trothwy o 50. | | | Mae hwn yn cymryd lle'r amddiffyniad ysgolion bach ac yn rhoi arian ychwanegol i'r arian a ddyrennir ar gyfer pob disgybl (ble bo'n briodol) o fewn y pwysiad a ddangosir.<br><br>Cyfrifir y gwerth fel 50% o werth yr uned sy'n seiliedig ar ddisgyblion a 50% o werth yr uned sy'n seiliedig ar ddisgyblion blwyddyn 1 CA1. |
| | | **Y disgybl** - £82 ar gyfer pob disgybl sy'n byw y tu allan i'r sir os yw'r ysgol yn derbyn > 50% o'i | | Mae'r dyraniad hwn yn ffordd o gefnogi ysgolion gyda'r pwysau sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd pan fo lefel uchel o ddisgyblion ar y gofrestr yn dod o du allan i'r sir. Mae'n hanfodol i ddyfodol unrhyw ysgol sydd yn y sefyllfa ble y gallai fod yn anghynaliadwy pe bai'r disgyblion hynny yn |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ddisgyblion o du allan i'r sir | | symud o'r ysgol. |
| | | | **Costau cyllidebol gwirioneddol lleoliadau preswyl** | Ariennir pob lle ar sail costau cyllidebol sy'n gyson â'r modd yr ydym yn adennill costau lleoliadau disgyblion y tu allan i'r sir. Bydd hwn yn destun adolygiad ar wahân oherwydd natur y cyfleuster a lefel angen y disgyblion. |
| **Cefnogaeth Busnes** | **Lwmp-swm <105 disgyblion**<br><br>0.25 diwrnod x Gradd 9 Rheolwr Busnes = £2,152<br><br>0.25 diwrnod x Gradd 9 Rheolwr Cyllid= £2,152<br><br>**Lwmp-swm >105 disgyblion**<br><br>0.5 diwrnod x Gradd 9 Business Manager = £4,304<br><br>0.5 diwrnod x Gradd 9 Rheolwr Cyllid= £4,304 | **Lwmp-swm <500 disgyblion**<br><br>1.25 diwrnod x Gradd 9 Rheolwr Busnes= £10,260<br><br>1.25 diwrnod x Gradd 9 Rheolwr Cyllid= £10,260<br><br>**Lwmp-swm >500 disgyblion**<br><br>2.5 diwrnod x Gradd 9 Rheolwr Busnes= £20,520<br><br>2.5 diwrnod x Gradd 9 Rheolwr Cyllid= £20,520 | **Lwmp-swm**<br><br>1.25 diwrnod x Gradd 9 Rheolwr Busnes= £10,260<br><br>1.25 diwrnod x Gradd 9 Rheolwr Cyllid= £10,260 | Mae'r dyraniadau lwmp-swm yn adlewyrchu costau'r prosiect Cynyddu Capasiti mewn Ysgolion ac wedi eu hunioni â chostau darparu cefnogaeth Rheoli Busnes a Chyllid ym mhob ysgol. |
